Estyn

Chwefror 2022




# Crynodeb o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac UCDau

Hydref 2021

## Beth oedd diben yr adroddiad?

Yn ystod y pandemig, cyflwynodd Estyn raglen o ymgysylltiad o bell a wyneb-yn-wyneb â phob ysgol. Galluogodd hyn i arolygwyr gasglu tystiolaeth o effaith y pandemig ar ddisgyblion a staff. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'n hymgysylltiad ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod tymor yr hydref 2021. Mae'n nodi'r negeseuon allweddol y mae angen i ysgolion ac UCDau eu hystyried wrth iddynt barhau â'u gwaith i gefnogi adfer a diwygio.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliom ymweliadau a galwadau ymgysylltu â 79 o ysgolion cynradd, 20 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol pob oed, 2 ysgol arbennig a gynhelir a 2 UCD. Ymwelsom â 38 o ysgolion cynradd, 57 o ysgolion uwchradd, 6 ysgol arbennig ac 1 UCD arall drwy ein gwaith thematig, ac ymweld â 28 o ysgolion ac UCDau a oedd mewn categorïau gweithgarwch dilynol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth a thrafodaethau ag arweinwyr ysgolion, athrawon a disgyblion, naill ai o bell neu wyneb-yn-wyneb. Mae'r cyfrannau'n ymwneud â sampl yr ysgolion y cysylltom â nhw yn ystod y cyfnod hwn.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Prif ganfyddiadau** | **1** |
| Lles dysgwyr a staff | 1 |
| Cwricwlwm | 2 |
| Addysgu | 3 |
| Anghenion dysgu ychwanegol | 3 |
| Dysgu Proffesiynol | 4 |
| Arweinyddiaeth | 5 |
| **Canfyddiadau manwl** | **7** |
| Lles dysgwyr a staff | 7 |
| Cwricwlwm | 11 |
| Addysgu | 16 |
| Anghenion dysgu ychwanegol | 20 |
| Dysgu Proffesiynol | 23 |
| Arweinyddiaeth | 26 |










## Prif ganfyddiadau

### Lles dysgwyr a staff

Dywedodd bron pob arweinydd ar draws pob sector mai lles disgyblion a staff oedd eu prif ffocws o hyd yn ystod tymor yr hydref. Bu hyn yn bwysig o ran helpu cefnogi lles corfforol ac emosiynol pawb a darparu amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Nododd arweinwyr fod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi mwynhau bod yn yr ysgol, yn cymdeithasu â'u cyfoedion ac yn ymgysylltu â dysgu wyneb-yn-wyneb.

Mae ychydig o ddisgyblion wedi cael trafferth ailintegreiddio a chydymffurfio'n llwyddiannus â disgwyliadau ac arferion newydd, fel amseroedd dechrau a gorffen gwasgarog. Mae hyn yn arbennig o wir i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac UCDau, ac mae'n ymddangos ei fod yn adlewyrchu'r anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cynyddol y mae staff yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd.

Soniodd ysgolion am ymgysylltiad da gan lawer o ddisgyblion ers dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Roedd y pryder mwyaf cyffredin mewn ysgolion uwchradd yn ymwneud â medrau llefaredd gwannach ymhlith disgyblion a'r gostyngiad yn eu hyder i gyfrannu at weithgareddau dosbarth.

Soniodd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn darparu mwy o gymorth ac ymyriadau na chyn y pandemig. Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod darparu ymyriadau a rhaglenni lles mewn ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau gorbryder a straen ymhlith disgyblion, er bod disgyblion hŷn mewn blynyddoedd sy'n sefyll arholiadau yn poeni o hyd am y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau'r haf hwn.

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau fod ganddynt ystod eang o strategaethau sy'n hybu lles disgyblion. Mae'r dulliau cefnogol hyn yn cynnwys perthynas waith broffesiynol, gadarnhaol â staff addysgu, yn ogystal â dulliau cyson. Mae llawer ohonynt yn defnyddio gweithgareddau chwarae therapiwtig yn fwy i atgyfnerthu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Roedd bron pob un o'r arweinwyr ysgolion o'r farn bod ganddynt ddealltwriaeth well o anghenion ac amgylchiadau'r teuluoedd yng nghymunedau eu hysgolion erbyn hyn. Nododd arweinwyr fod hyn wedi gwella cydweithio a pherthnasoedd gwaith rhwng yr ysgol a'r cartref.

Dywedodd bron pob arweinydd wrthym fod gorbryder a straen ymhlith staff wedi parhau i beri pryder. Dywedodd llawer ohonynt y bu absenoldebau cynyddol ymhlith staff oherwydd salwch yn gysylltiedig â'r pandemig neu straen yn un o'r problemau mwyaf wrth geisio cadw ysgolion ar agor.

Dywed arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau fod absenoldebau staff yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion hefyd. Er enghraifft, mae disgyblion ag anawsterau cymhleth yn aml yn ei chael hi'n heriol meithrin perthynas ac yn ei chael hi'n anodd dysgu'n effeithiol gyda staff anghyfarwydd.

Dywedodd bron pob arweinydd fod y tymor wedi parhau i fod yn heriol oherwydd y newidiadau cyflym i'r arweiniad a gorfod gwneud yr addasiadau angenrheidiol i'r amgylcheddau dysgu i gadw pobl yn ddiogel. Dywedodd bron pob un ohonynt eu bod nhw a'u staff wedi teimlo'n flinedig iawn ac wedi'u gorlwytho, ar adegau, yn ystod y tymor.

**Cwricwlwm**

Siaradodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn optimistaidd am fanteision posibl y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn croesawu'r cyfle i weithio'n fwy hyblyg a gallant weld manteision dull a chynnwys sydd wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau eu disgyblion.

Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi parhau i ddatblygu eu gweledigaeth a dylunio a threialu agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol o ran pa mor barod ydynt i roi'r cwricwlwm ar waith.

Mae ysgolion arbennig ac UCDau yn cadarnhau bod pedwar diben y cwricwlwm wrth wraidd eu gwaith i ddatblygu profiadau addysgol. Er iddynt siarad yn hyderus yn aml am sut maent yn datblygu eu cwricwla, mae heriau gweithredol y pandemig wedi arwain at rai ohonynt yn gohirio datblygu'r gwaith hwn.

Mewn ysgolion cynradd, mae arweinwyr wedi cydweithio'n feddylgar â rhanddeiliaid i sefydlu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm. Yn yr ysgolion cryfaf, mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol ac anghenion disgyblion yn dda.

Mae gan leiafrif yr ysgolion uwchradd gynllun strategol clir lle maent wedi ystyried blaenoriaethau tymor byr, canolig a thymor hir ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae rhai ohonynt yn gwerthuso eu dulliau ar gyfer dylunio a datblygu'r cwricwlwm yn rheolaidd i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, cyn gwneud addasiadau amserol. Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn meddwl yn ddigon strategol am sut bydd eu cwricwlwm yn cyflawni nodau ac uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn aml, mae ysgolion a nodwyd fel ysgolion arloesi yn wreiddiol a'r rhai nad oeddent yn ysgolion arloesi wedi nodi profiadau sylweddol wahanol wrth gynllunio i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Yn aml, nid yw ysgolion nad oeddent yn ysgolion arloesi yn teimlo eu bod wedi cael yr amser a gafodd ysgolion arloesi i ddatblygu'r cwricwlwm, nac yn teimlo bod yr hyn a ddysgwyd a'r profiadau a gafodd ysgolion arloesi wedi'u rhannu'n ddigon da â nhw.

Er gwaethaf agweddau cadarnhaol, yn gyffredinol, tuag at y cyfleoedd datblygu y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig, mae rhwystrau tybiedig, fel diffyg sicrwydd ynghylch cymwysterau, yn parhau i atal cynnydd ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd.

Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i ofyn am arweiniad ychwanegol ar feysydd, fel cynllunio ar gyfer dilyniant.

## Addysgu

Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd wedi meddwl yn ofalus am sut gallant wella addysgu i gefnogi rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol wedi datblygu dull strategol, ysgol gyfan o rannu arfer dda a gwella addysgu.

Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn canolbwyntio'n gynyddol ar ddatblygu dealltwriaeth athrawon o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysgu effeithiol fel rhan o ddatblygiadau'r cwricwlwm.

Yn aml, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r 12 egwyddor addysgegol a amlinellir yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus[1] i helpu llywio mentrau i wella addysgu.

Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, rhannodd arweinwyr eu dealltwriaeth o sut bydd gwella ansawdd addysgu a datblygu dealltwriaeth o'r gyd-ddibyniaeth rhwng y cwricwlwm ac addysgeg effeithiol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer eu cwricwlwm newydd.

Mae llawer o arweinwyr ar draws pob ysgol ac UCD yn nodi pryderon yn ymwneud ag asesu a dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig o ran nodi a disgrifio sut olwg ddylai fod ar gynnydd drwy'r cwricwlwm.

Mae ychydig iawn o ysgolion cynradd yn defnyddio canllawiau'r cwricwlwm yn hyderus i ddatblygu darlun o sut olwg fydd ar gynnydd drwy eu cwricwla unigol eu hunain.

Mae llawer o ysgolion arbennig ac UCDau yn canolbwyntio addysgu ar leddfu effaith y pandemig drwy addysgu disgyblion mewn grwpiau bach neu'n unigol. Nodant fod gorfod ystyried profiadau disgyblion gwahanol yn ystod y pandemig wedi gwella lefel y cynllunio a'r cymorth i ddisgyblion unigol.

## Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Dywedodd bron pob arweinydd mewn ysgolion ac UCDau, er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, eu bod wedi parhau i ddiwygio eu darpariaeth i fodloni gofynion y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gan bron pob cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADYau) farn gadarnhaol am arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod y diwygiadau ADY yn ddatblygiad cadarnhaol. Nododd llawer ohonynt fod disgyblion a rheini'n gwerthfawrogi'r newidiadau o ran sut mae'r ysgol yn ceisio eu barn, sut caiff cyfarfodydd eu cynnal a sut caiff gwybodaeth ei rhannu.

Ym mron pob ysgol ac UCD, mae gan CADYau ddealltwriaeth gadarn o'r cod newydd a chysyniad arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mewn ysgolion cynradd,

[1] Donaldson, G. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf

mae llawer o CADYau wedi trosglwyddo eu gwybodaeth a dealltwriaeth i staff eraill yn llwyddiannus.

Nododd ysgolion uwchradd, er bod rhai staff wedi cael hyfforddiant ar ddiwygio ADY, sydd wedi arwain at ddealltwriaeth well o'u rolau a chyfrifoldebau o ran cynnig cymorth cyffredinol i ddisgyblion ag ADY, nid yw hyn yn cael ei ymgorffori ar draws pob maes yn eu hysgolion o hyd. Mae sicrhau bod yr holl staff addysgu'n sylweddoli bod pawb yn gyfrifol am ddarpariaeth ar gyfer ADY yn parhau'n her lle mae athrawon yn ystyried eu hunain yn arbenigwyr pwnc o hyd, ac nad ydynt yn ystyried anghenion disgyblion ag ADY fel mater o drefn wrth gynllunio a chyflwyno gwersi.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr y bu'r hyfforddiant a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol ar ddiwygio ADY yn ddefnyddiol. Er enghraifft, mae awdurdodau lleol wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol, gan gynnwys gweithdai, modiwlau ar-lein, cyfleoedd am drafodaethau proffesiynol ac adnoddau o ansawdd da i staff eu defnyddio.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau wedi nodi'r disgyblion hynny y mae angen ymyrraeth ADY arbenigol arnynt, ac wedi mapio anghenion disgyblion eraill o ran darpariaeth gyffredinol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ystod o ymyriadau, pecynnau cymorth a darpariaeth cwricwlwm addas ar bob un o'r lefelau hyn.

Mae CADYau ac arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn poeni bod prinder asesiadau sgrinio, adnoddau cymorth a rhaglenni ymyrraeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg o hyd.

Mae llawer o CADYau yn y sector cynradd wedi gweithio mewn partneriaeth yn eu clwstwr ysgolion i greu pamffledi a llythyrau sy'n rhoi gwybod i rieni am ddiwygio ADY a sut bydd yn effeithio ar eu plant. Ym mron pob achos, dywedodd CADYau mewn ysgolion uwchradd fod cynllunio a chymorth effeithiol ar lefel y clwstwr.

Ar draws pob sector, nododd CADYau heriau sylweddol yn ymwneud â chyfyngiadau amser a gofynion gweinyddol, ac roeddent yn crybwyll bod llunio CDUau yn llafurus.

## Dysgu proffesiynol

Er gwaethaf y pandemig, mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff i wella ansawdd yr addysgu a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Mae dysgu proffesiynol wedi parhau ar-lein mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, a disgrifiodd arweinwyr fanteision cael dysgu proffesiynol yn y modd hwn.

Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd wedi cynorthwyo staff i ddefnyddio ymchwil ac ymholi i gyfrannu at wella agweddau ar addysgu a dysgu. Teimlai arweinwyr yn yr ysgolion hyn fod hyn yn helpu staff i baratoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae llawer o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd wedi cyflwyno anogaeth fel dull dysgu proffesiynol. Mae'r dull hwn hefyd yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a chlystyrau, a rhwng staff o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad.

Nododd mwyafrif yr arweinwyr eu bod wedi cael cymorth gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac ystyried ei egwyddorion. Yn gyffredinol, hoffai llawer o ysgolion gael mwy o ddysgu proffesiynol ar feysydd fel dilyniant yn y cwricwlwm, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion, a chymorth mwy ymarferol a phwrpasol i ddylunio a datblygu eu cwricwlwm.

Mewn lleiafrif o ysgolion, ni fu llawer o ddysgu proffesiynol i staff mewn cysylltiad â dylunio'r cwricwlwm, y pedwar diben a meysydd dysgu a phrofiad. Yn aml, nid oes gan staff yn yr ysgolion hyn ddealltwriaeth gref o gwricwlwm sy'n gydlynus ac yn dangos dilyniant, na'r arbenigedd i'w ddatblygu.

Mae ysgolion arbennig ac UCDau yn parhau i gael eu cyfyngu o ran eu gallu i ymweld â darparwyr eraill a chydweithio â chydweithwyr mewn ysgolion eraill. O ganlyniad, mae cyfleoedd i rannu arfer effeithiol wyneb-yn-wyneb wedi'u cyfyngu o hyd.

**Arweinyddiaeth**

Parhaodd bron pob arweinydd i nodi y bu arwain ysgol mewn pandemig yn heriol, a'u blaenoriaeth fu cadw pawb yn ddiogel a chynnal lles staff a disgyblion.

Bu arweinwyr yn ofalus i beidio â gorlwytho staff pan fuont dan bwysau am gyfnod sylweddol. Er hynny, bu absenoldebau sylweddol ymhlith staff oherwydd materion yn gysylltiedig â'r pandemig neu straen. Yn aml, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar baratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY.

Roedd llawer o arweinwyr yn y sector uwchradd yn teimlo mai tymor yr hydref oedd y cyfnod mwyaf heriol yn ystod y pandemig. Cyfrannodd newid y cwricwlwm a diwygio ADY at y pwysau sylweddol a deimlwyd gan arweinwyr. Serch hynny, roedd ganddynt agwedd gadarnhaol, yn gyffredinol, tuag at y cyfleoedd y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig.

Ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd, mae uwch dimau arweinyddiaeth wedi datblygu gweledigaeth i roi newid ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, crybwyllodd arweinwyr fod COVID-19 wedi arafu cynnydd tuag at roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith a datblygu cwricwlwm lleol.

Teimlai llawer o arweinwyr mewn ysgolion cynradd eu bod wedi creu amgylchedd cadarnhaol lle caiff creadigedd ac arbrofi eu hannog. Serch hynny, dywed llawer ohonynt fod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi parhau i lesteirio cyflymder ac effeithiolrwydd llawer o'u cynlluniau.

Yr ysgolion sy'n ymddangos yn fwyaf parod i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yw'r rhai lle mae arweinwyr wedi neilltuo amser a lle i staff ddatblygu eu meddylfryd a'u harbenigedd.

Lle y mynegodd arweinwyr bryderon penodol, roeddent yn aml yn ymwneud â nodi sut olwg ddylai fod ar ddilyniant drwy'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion, ac ar ba ffurf y dylai asesiadau fod. Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym eu bod yn aniscr am y meysydd hynny ac y byddant yn gwerthfawrogi rhagor o arweiniad.

Nododd llawer o arweinwyr nad yw’n bosibl ymgymryd â’u gweithgareddau hunanwerthuso arferol bob tro oherwydd y cyfyngiadau sy’n gysylltiedig â’r pandemig. Roedd arnynt eisiau gwerthuso darpariaeth a safonau’n drylwyr, ond roeddent yn awyddus i beidio ag ychwanegu rhagor o bwysau ar weithlu a oedd eisoes wedi blino.

# Canfyddiadau manwl

## Lles

**Soniodd bron pob arweinydd ar draws pob sector mai lles disgyblion a staff oedd eu prif ffocws o hyd yn ystod tymor yr hydref. Nododd arweinwyr fod y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi mwynhau bod yn yr ysgol, yn cymdeithasu â'u cyfoedion ac yn ymgysylltu â dysgu wyneb-yn-wyneb. Mae ymddygiad llawer o ddisgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda.**

Rhannodd llawer o arweinwyr fod disgyblion wedi dangos llawer iawn o wydnwch ac wedi addasu'n dda i newidiadau i amserlenni ac arferion yr ysgol. Mewn lleiafrif o ysgol cynradd, mae staff wedi achub ar y cyfle i ymgorffori eu gwaith ar les yn eu cynlluniau gwaith a'u harfer ystafell ddosbarth.

Yn gyffredinol, nododd ysgolion uwchradd fod presenoldeb yn dda o ystyried y sefyllfa heriol yn gysylltiedig â'r pandemig. Soniwyd am gynnydd mewn presenoldeb yn ystod ail ran tymor yr hydref oherwydd llai o achosion o COVID-19 ymhlith disgyblion. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion wedi dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb o hyd ers dechrau'r cyfnod clo cyntaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd problemau emosiynol neu iechyd meddwl.



Ar gyfer ychydig o ddisgyblion a oedd yn peri pryder cyn COVID-19, mae'r pandemig wedi gwaethygu pethau. Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd arweinwyr ysgolion fod disgyblion nad oeddent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu cyn dechrau'r pandemig yn parhau i beri pryder. Mae ychydig o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac UCDau wedi cael trafferth ailintegreiddio a chydymffurfio'n llwyddiannus â disgwyliadau ac arferion. Mae hyn i'w weld yn adlewyrchu'r anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cynyddol y mae staff yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd.

Soniodd ysgolion am ymgysylltiad da gan lawer o ddisgyblion ers dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Roedd y pryder mwyaf cyffredin mewn ysgolion uwchradd yn ymwneud â medrau llefaredd gwannach ymhlith disgyblion a'r gostyngiad yn eu hyder i gyfrannu at weithgareddau dosbarth. Roedd amseroedd cinio gwasgaredig a chwtogi amser cinio'n golygu nad oedd rhai ysgolion yn cynnig clybiau amser cinio a gweithgareddau cymdeithasol eraill. Gallai hyn gael effaith negyddol ar fedrau cymdeithasol disgyblion. Roedd arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau yn rhannu pryderon ynghylch peidio â gallu datblygu profiadau dysgu'n llawn, fel cyflwyno disgyblion i brofiadau newydd ac anghyfarwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth gyfarwydd.

Mae cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar draws llawer o ysgolion, gydag ychydig o ysgolion yn nodi cynnydd sylweddol ers dechrau'r pandemig. Mae'r lefel uwch hwn o ddifreintedd wedi arwain at angen cynyddol i ysgolion ddiwygio eu darpariaeth i gefnogi lles a dysgu disgyblion.

Rhannodd bron pob arweinydd mewn ysgolion arbennig ac UCDau ddulliau clir o asesu, monitro a gwerthuso lles disgyblion. Mae hyn yn galluogi staff i nodi rhwystrau rhag dysgu ac yn eu helpu i wybod pryd a sut i ymyrryd neu gynnig cymorth. Er enghraifft, mewn un ysgol arbennig, mae seicolegydd addysg yr ysgol yn cydweithio'n agos â disgyblion a'u teuluoedd i fonitro a chefnogi eu lles. Maent yn cynnig cyswllt i asiantaethau eraill sy'n gweithio â'r plentyn. Fel hyn, gall disgyblion fanteisio ar gymorth priodol yn rheolaidd yn ôl yr angen.

Dywed y rhan fwyaf o arweinwyr fod darparu ymyriadau a rhaglenni lles mewn ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau gorbryder a straen ymhlith disgyblion. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol staff fel eu bod yn gallu cynnig cymorth uniongyrchol i bron pob un o'u disgyblion.

**Cameo – holiaduron lles staff a disgyblion**

Yn Ysgol y Llys, Sir Ddinbych, mae arweinwyr wedi rhoi cyfle i ddisgyblion a staff rannu eu teimladau a'u pryderon drwy holiaduron lles. Dadansoddodd arweinwyr y canlyniadau a chwilio am dueddiadau a themâu cyffredin. O ganlyniad, roedd yr ysgol yn gallu targedu anghenion lles penodol staff a disgyblion a rhoi'r ymyriadau angenrheidiol ar waith. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol swyddog lles parhaol sy'n arwain ar strategaethau ymyrraeth ac yn cynnig y cymorth sydd ei angen ar staff a disgyblion ar draws yr ysgol.

Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn cynnig mwy o gymorth ac ymyriadau na chyn y pandemig. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r rhain yn aml yn cynnwys:

- rhaglen ABCh ddiwygiedig i ymateb i heriau'r pandemig, fel adeiladu gwydnwch, rhoi blaenoriaeth i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, ymdrin â gorbryder yn ymwneud ag arholiadau
- mwy o ymyriadau yn yr ysgol, fel amser cofrestru estynedig ar gyfer rhaglenni medrau cymdeithasol a hybu gwydnwch
- buddsoddi mewn mwy o staff a swyddogion lles
- dysgu proffesiynol i holl staff yr ysgolion ar faterion lles, fel hyfforddiant ysgolion wedi'u llywio gan drawma
- cynnydd mewn gweithgareddau llais y disgybl, fel holiaduron rheolaidd

Rhannodd ychydig o ysgolion uwchradd bryderon ynghylch eu disgyblion hynaf, yn enwedig y rhai ym Mlwyddyn 13. Mae'r disgyblion hyn yn wynebu arholiadau allanol am y tro cyntaf ac yn llai annibynnol a gwydn na disgyblion o flynyddoedd blaenorol. Yn gyffredinol, mae eu medrau a'u technegau adolygu'n wannach ac maent yn dangos arwyddion o orbryder.

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau fod ganddynt ystod eang o strategaethau sy'n hybu lles disgyblion. Mae'r dulliau cefnogol hyn yn cynnwys perthnasoedd gwaith proffesiynol cadarnhaol â staff addysgu, yn ogystal â chysondeb o ran dulliau. Er enghraifft, mewn un UCD, ar ddechrau'r dydd, mae pob disgybl yn dal i fyny â mentor cyfarwydd ar sail un-i-un, yn ogystal ag ymyriadau dyddiol fel meddylgarwch a gweithgareddau egnïol i hybu lles. Mae llawer o ysgolion ac UCDau yn defnyddio mwy o weithgareddau chwarae therapiwtig i atgyfnerthu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Roedd bron pob arweinydd ysgol o'r farn bod ganddynt ddealltwriaeth well o anghenion ac amgylchiadau'r teuluoedd yng nghymunedau eu hysgolion erbyn hyn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae staff wedi ymgysylltu â rhieni drwy weithdai lles neu wedi cynnal cyfarfodydd rhithiol â rhieni i drafod anghenion eu plant. Nododd arweinwyr fod hyn wedi gwella cydweithio a pherthnasoedd gwaith rhwng yr ysgol a'r cartref.

Dywedodd ychydig o arweinwyr eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i asiantaethau allanol oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Mae ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau â lefelau uchel o ddifreintedd yn parhau i wynebu heriau cymhleth. Nododd arweinwyr mewn ysgolion cynradd, yn yr amgylchiadau hyn, y bu cymorth gan swyddogion lles addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol yn allweddol o ran gwella'r amodau i ddisgyblion penodol.

Soniodd bron pob ysgol am gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn plant dros amser, a'u bod yn dal i wneud cymaint o atgyfeiriadau ag y gwnaethant wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Soniodd staff ysgolion uwchradd am gynnydd yn nifer yr achosion o gam-drin domestig y rhoddwyd gwybod iddynt amdanynt hefyd. Ar draws bron pob ysgol, mae gan ychydig o deuluoedd heriau sylweddol ac maent yn cael cymorth rheolaidd gan staff lles, yn ogystal â chan asiantaethau allanol.

**Cameo – cymorth unigoledig i wella lles**

Mae Ysgol Gyfun Cefn Saeson yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi creu cofrestr o ddisgyblion bregus ac wedi dyrannu ‘gweithiwr allweddol’ i bob un o’r disgyblion hyn. Dewiswyd y gweithwyr allweddol yn ofalus i sicrhau eu bod yn adnabod y disgybl yn dda, bod ganddynt berthynas dda â nhw a’u bod yn deall eu sefyllfaoedd penodol. Mae uwch arweinwyr yn teimlo bod hyn yn sicrhau bod gan bob disgybl berthynas gefnogol, gref ac aelod staff sydd hefyd yn gallu meithrin cysylltiad â theuluoedd y disgyblion. Mae disgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i’r dull hwn, a theimlant fod ganddynt aelod staff y gallant ymddiried ynddynt ac y gallant fynd atynt pan fydd angen help a chymorth arnynt.

Dywedodd bron pob arweinydd wrthym fod gorbryder a straen ymhlith staff wedi parhau i beri pryder. Dywedodd llawer ohonynt y bu absenoldebau cynyddol ymhlith staff oherwydd salwch yn gysylltiedig â’r pandemig neu straen yn un o’r problemau mwyaf wrth geisio cadw ysgolion ar agor. Mae arweinwyr wedi’i chael yn fwyfwy anodd dod o hyd i athrawon llanw ar gyfer aelodau staff sy’n absennol.

Disgrifiodd llawer o arweinwyr mewn ysgolion ac UCDau berthynas gref o fewn timau staff a nodi ystod o enghreifftiau lle mae staff wedi mynd y tu hwnt i’r hyn a ddisgwylir ohonynt fel arfer yn ystod y pandemig. Mewn un ysgol arbennig, gall staff addysgu fanteisio ar seicotherapydd yr ysgol i drafod eu lles eu hunain, yn ogystal â lles disgyblion.

**Cameo – cymorth buddiol ar gyfer lles**

Yn ysgol arbennig Ysgol y Llys, Caerdydd, mae seicotherapydd yr ysgol yn cynnig cymorth i bob aelod o gymuned yr ysgol. Ei rôl yw cynorthwyo’r ysgol, yn ogystal â chynorthwyo aelodau staff unigol i gynnal perthynas gadarnhaol â’u disgyblion, rhieni a gofalwyr. Maent yn gyswllt ar gyfer pob asiantaeth sydd ynghlwm wrth ddisgyblion ac yn helpu cefnogi gwaith cydlynus. Mewn rhai achosion, mae’r gwasanaethau cymdeithasol yn atgyfeirio rhieni iddynt am ragor o gymorth er mwyn helpu i sicrhau y gall disgyblion fod yn aelod o uned deulu sicr.

I gefnogi staff, mae’r seicotherapydd wedi cyflwyno hyfforddiant ar bynciau fel perthnasoedd, seicoleg ac ymlyniad. Mae hyn yn helpu meithrin perthynas waith ymddiriedus â disgyblion a’u rhieni/gofalwyr. Mae hyn yn allweddol o ran helpu disgyblion i ailddarganfod eu hymddiriedaeth yn y broses ddysgu a chefnogi eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol. Yn ôl y gofyn, mae’r seicotherapydd yn cynnig cymorth ychwanegol i aelodau staff unigol neu dimau staff sy’n cael trafferth â heriau eu rôl. Er enghraifft, mae’n cynnig cymorth a hyfforddiant targedig ar sut i fodloni anghenion unigol disgyblion.

Dywedodd bron pob arweinydd fod y tymor wedi parhau i fod yn heriol oherwydd y newidiadau cyflym i’r arweiniad a gorfod gwneud yr addasiadau angenrheidiol i’r amgylcheddau dysgu i gadw pobl yn ddiogel. Dywedodd bron pob un ohonynt eu bod nhw a’u staff wedi teimlo’n flinedig iawn ac wedi’u gorlwytho, ar adegau, yn ystod y tymor.

# Cwricwlwm

**Mae’r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a siaradont yn optimistaidd am ei fuddion posibl. Siaradont yn gadarnhaol am y gwaith maent wedi’i wneud hyd yn hyn a’r gwahaniaeth y mae’n ei wneud, yn enwedig o ran ymgysylltu â disgyblion ac ennyn eu brwdfrydedd. Mae pob ysgol yn croesawu’r cyfle i weithio’n fwy hyblyg â’r cwricwlwm a gallant weld manteision dull a chynnwys sydd wedi’u teilwra i anghenion a diddordebau eu disgyblion. Mae llawer o ysgolion wedi rhoi mwy o bwyslais ar Gynefin a hybu hanes a diwylliant Cymru yn eu gweledigaeth a’r cwricwlwm y maent yn ei gynnig.**

Er bod bron pob ysgol uwchradd y siaradom â nhw’n gadarhaol ynghylch y cyfleoedd y mae’r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig, yn gyffredinol, mae amrywiad sylweddol o ran pa mor barod ydynt i roi’r cwricwlwm ar waith. Mae hyn yn rhannol oherwydd effaith y pandemig COVID-19 a’r heriau gweithredol sylweddol y mae ysgolion wedi’u hwynebu.



Er mis Medi, mae llawer o ysgolion uwchradd wedi parhau i ddatblygu eu gweledigaeth, a dylunio a threialu agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion wedi symud yn rhy gyflym i ddatblygu cynnwys ar gyfer y meysydd dysgu a phrofiad cyn archwilio eu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm o ddifrif a gwerthuso ansawdd yr addysg ar lefel ysgol gyfan.

Siaradodd tua hanner yr ysgolion arbennig ac UCDau yn hyderus am y strategaethau maent yn eu defnyddio i ddatblygu eu cwricwla, fel gwerthuso ac addasu themâu ar gyfer dysgu, adlinio cyfrifoldebau staff a datblygu cynllunio'r cwricwlwm i gyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad (MDaPh). Fodd bynnag, esboniai eraill fod heriau gweithredol y pandemig wedi arwain at ohirio datblygu'r gwaith hwn. Nododd y rhan fwyaf o arweinwyr fod egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn cyfateb yn dda i'r dulliau dysgu sy'n cael eu dilyn gan y rhan fwyaf yn eu sectorau, ac yn rhoi'r rhyddid iddynt ddatblygu profiadau dysgu sy'n gweddu i anghenion eu disgyblion.

Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae arweinwyr wedi cydweithio â rhanddeiliaid i sefydlu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm. Yn yr ysgolion cryfaf, mae'r weledigaeth hon yn adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol ac anghenion ei disgyblion yn dda. Yn y darparwyr hyn, mae arweinwyr wedi cydweithio'n feddylgar â staff a disgyblion i ystyried y ffordd orau i ddehongli a chymhwyso'r pedwar diben i adlewyrchu cyd-destun eu hysgol. Mae lleiafrif o ysgolion wedi alinio eu gweledigaeth â phedwar diben y cwricwlwm ond, hyd yn hyn, nid ydynt wedi ystyried yn ddigon da sut i wireddu'r weledigaeth hon i ddisgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, nid oes llawer o aliniad rhwng y weledigaeth ar gyfer cwricwlwm yr ysgol a'i gymhwyso'n ymarferol. Mae llawer o'r ysgolion hyn wedi cael trafferth datblygu eu hymagwedd tuag at y cwricwlwm ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020.

**Cameo – defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad i helpu dylunio'r cwricwlwm**

Yn Ysgol Gynradd Alexandra, Wrecsam, defnyddiodd yr ysgol wybodaeth o'r cyfrifiad i'w helpu i ddeall anghenion ei disgyblion a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ei nodau a datblygu'r cwricwlwm. Er enghraifft, nododd nad oedd gan 46% o deuluoedd geir, bod 86% ohonynt yn byw mewn llety wedi'i rentu, nad oedd llawer o fannau cymunedol diogel i ddisgyblion a bod y mathau mwyaf cyffredin o droseddu yn yr ardal yn cynnwys trais domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ganlyniad, sicrhaont fod agweddau, fel mwy o ffocws ar amrywiaeth, teithiau y tu allan i'r amgylchedd lleol, dysgu ymarferol yn yr awyr agored ac addysgeg yn ymwneud â gwydnwch a pharch wedi'u hintegreiddio yn y cwricwlwm y mae'n ei gynnig.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd wedi dylunio eu cwricwlwm o gwmpas themâu bob tymor neu bob hanner tymor. Yn gyffredinol, mae cynllunio ar gyfer y themâu hyn yn rhoi ystyriaeth briodol i'r datganiadau 'yr hyn sy'n bwysig', pedwar diben y cwricwlwm a themâu trawsbynciol. Yn aml, mae athrawon yn cynllunio tasgau diddorol ar ddechrau a diwedd unedau gwaith i ennyn diddordeb disgyblion ac atgyfnerthu eu dysgu. Er enghraifft, weithiau, mae ysgolion yn dechrau themâu ag ymweliad i ffwrdd o'r safle neu ddiwrnod o weithgareddau ysgol gyfan. Mewn llawer o ysgolion, caiff themâu eu rhannu ar draws dosbarthiadau neu ar draws yr ysgol gyfan, ac mae staff yn cynllunio addysgu gyda'i gilydd i sicrhau bod parhad a

dilyniant ar draws cyfnodau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae'r themâu hyn yn canolbwyntio'n ormodol ar un maes dysgu neu nid ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer dysgu ar draws ystod ddigon eang o wybodaeth, medrau a phrofiadau. Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion yn dibynnu ar gynlluniau gwaith 'a brynwyd', ac nid ydynt yn addasu'r rhain yn ddigon da ar gyfer eu cyd-destun eu hunain ac anghenion eu disgyblion.

Mae llawer o ysgolion cynradd wedi dechrau myfyrio ar eu gwaith cynnar cychwynnol ar y cwricwlwm ac wedi addasu eu dulliau neu eu newid yn gyfan gwbl. Er enghraifft, cydnabu ychydig o ysgolion fod cael un wythnos yn canolbwyntio ar MDaPh neu thema benodol yn rhoi digon o amser iddynt ddatblygu ehangder a dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Yn hytrach, maent wedi ailystyried eu dull ac wedi integreiddio agweddau ar y MDaPh a medrau trawsgwricwlaidd dros gyfnodau hwy. Mae pob ysgol yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, ac maent yn gadarnhaol am y strwythur y mae'r fframweithiau cysylltiedig yn ei ddarparu.

Mae ysgolion arbennig ac UCDau yn cadarnhau bod pedwar diben y cwricwlwm wrth wraidd eu gwaith i ddatblygu profiadau addysgol. Er enghraifft, mewn un UCD, mae disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu'n gyfranwyr mentrus a chreadigol drwy baratoi eitemau fel rhan o'u gwersi adeiladu i'w gwerthu yn y ffair Nadolig. Yna, maent yn ystyried ac yn dewis elusennau a fyddai'n elwa ar yr arian a godwyd drwy eu hymdrechion. Fel hyn, mae disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu'n gyfranwyr mentrus a chreadigol.

**Cameo – ymateb i anghenion disgyblion**

Mae'r UCD yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin yn cynnig ystod o brofiadau dysgu cyfannol a theilwredig sydd wedi'u seilio ar anghenion disgyblion. Mae gan ychydig o ddisgyblion ddiffyg cymhelliant neu maent yn ofni rhoi cynnig ar brofiadau newydd. I'w helpu i oresgyn yr heriau hyn, trefnodd yr UCD i gogydd proffesiynol ymweld a chynnig gweithgareddau coginio awyr agored i ddisgyblion. Cynlluniwyd y profiad hwn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn ddiddorol ac yn ddiogel. O ganlyniad, ymgysylltodd disgyblion yn dda ac roeddent wedi'u cymell i lwyddo a chwblhau'r dasg yn llwyddiannus.

Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd wedi treialu datblygiad y Cwricwlwm i Gymru mewn un MDaPh i ddechrau, sef y dyniaethau'n aml. Maent wedi cynyddu ymglymiad adrannau ychwanegol yn raddol dros amser, er bod hyn yn amrywio o un ysgol i'r llall. Mae ysgolion wedi mabwysiadu ffyrdd gwahanol i ddatblygu eu cwricwla, fel:

- cynnig cyfleoedd i adrannau gydweithio ar agweddau penodol, gan gynnwys cyfleoedd i weithio â chydlynwyr llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth i gynllunio darpariaeth ar gyfer medrau yn y cwricwlwm
- defnyddio dulliau, fel gofyn 'cwestiynau mawr', i ganolbwyntio dysgu ar gysyniadau a medrau allweddol
- cydweithio'n agos â'r ysgolion cynradd yn eu clwstwr i ystyried dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae gan leiafrif yr ysgolion uwchradd gynllun strategol clir lle maent wedi ystyried blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys agweddau fel datblygu addysgu, sicrhau digon o amser i arweinwyr gynllunio a chydweithio, a sicrhau cyfleoedd i rieni, disgyblion a staff gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw pob un ohonynt yn meddwl yn ddigon strategol am sut bydd eu cwricwlwm yn cyflawni nodau ac uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn aml, mae ysgolion a nodwyd yn ysgolion arloesi yn wreiddiol a'r rhai nad oeddent yn ysgolion arloesi wedi nodi profiadau sylweddol wahanol wrth gynllunio i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Mae llawer o ysgolion nad oeddent yn ysgolion arloesi o'r farn bod ysgolion arloesi wedi cael mantais sylweddol drostynt, gan iddynt elwa ar fwy o amser i ddatblygu a mireinio eu hymagwedd tuag at y cwricwlwm heb y pwysau amser y mae ysgolion eraill yn ei deimlo erbyn hyn. Yn ogystal, roedd gan ysgolion arloesi'r fantais o allu siarad yn rheolaidd ac yn fanwl â llawer o ysgolion arloesi eraill. Galluogodd hyn iddynt gydweithio i gymharu dulliau, rhannu syniadau a dod i gasgliadau ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio. Yn gyffredinol, roeddent yn gallu rhoi mwy o amser i'w staff ymgymryd â gwaith darllen cefndirol ac ymchwil yn yr ystafell ddosbarth hefyd. Mae llawer o ysgolion nad oeddent yn ysgolion arloesi yn teimlo nad yw dysgu a phrofiad ysgolion arloesi wedi'u rhannu'n ddigon da â nhw bob tro, yn ystod y broses arloesi na thu hwnt.

Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn gwerthuso eu dulliau dylunio a datblygu'r cwricwlwm yn rheolaidd i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella cyn gwneud addasiadau amserol. Mae'r addasiadau hyn wedi cynnwys:

- ffocws cryfach ar addysgu ac addysgeg
- darpariaeth sy'n cynnig her ddigonol i bob disgybl
- cynnig cwricwlwm mwy cytbwys sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'n effeithiol
- mwy o ehangder a dyfnder a ran gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pynciau penodol
- cynnig dysgu dilys a chysylltiadau trawsgwricwlaidd
- trefnu cysyniadau allweddol yn effeithiol er mwyn sicrhau dilyniant
- mwy o gyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau rhwng cyd-destunau lleol, Cymreig a rhyngwladol
- mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried amrywiaeth
- mwy o gyfleoedd a chyfleoedd gwell i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg

Nododd arweinwyr ar draws pob ysgol arbennig ac UCD yr angen parhaus am gwricwlwm hyblyg i ymateb i anghenion disgyblion oherwydd eu profiadau gwahanol yn ystod y pandemig. Maent yn parhau i amlygu'r heriau o ran cyflwyno profiadau dysgu eang i bob disgybl dan y cyfyngiadau cyfredol. Maent yn dechrau ailgydio mewn rhai gweithgareddau i ffwrdd o'r safle i sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion, gan gynnwys profiad gwaith, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau â mannau o ddiddordeb.

Mae ychydig o arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau wedi adolygu'r profiadau dysgu roeddent yn gallu eu cynnig yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo a dysgu o bell. O ganlyniad, maent

wedi gwneud newidiadau i'r cwricwlwm ar gyfer tymor yr hydref er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cydbwysedd eang o bob maes dysgu.

Nododd mwyafrif yr arweinwyr eu bod wedi cael cymorth gan gonsortia rhanbarthol i'w helpu i ystyried ystod o feysydd, fel dulliau o ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu, ac egwyddorion pwysig y Cwricwlwm i Gymru. Dywed mwyafrif yr ysgolion y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o gymorth gan gonsortia rhanbarthol ar ystyriaethau ymarferol dylunio'r cwricwlwm.

Er gwaethaf agweddau cadarnhaol, yn gyffredinol, tuag at y cyfleoedd datblygu y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig, mae rhwystrau tybiedig yn parhau i atal cynnydd ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg sicrwydd ynghylch cymwysterau yn y dyfodol a threfniadau atebolrwydd. Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau i ofyn am arweiniad ychwanegol ar asesu fel cynllunio ar gyfer dilyniant hefyd.

# Addysgu

**Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd wedi meddwl yn ofalus am sut gallant wella addysgu i gefnogi rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol wedi datblygu dull ysgol gyfan, strategol o rannu arfer dda a gwella addysgu.**

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr wedi datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o beth yw addysgu effeithiol, ac wedi rhannu hyn gyda staff. Mae hyn yn magu hyder ac yn annog athrawon i dreialu dulliau newydd ac adolygu eu heffaith ar ddysgu disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae diwylliant o hunanfyfyrio a hyfforddi sy'n galluogi rhannu arfer dda yn agored, a pharodrwydd staff i gael sgyrsiau proffesiynol gwerthfawr am beth sy'n gweithio, a beth sydd ddim yn gweithio.



Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn canolbwyntio'n gynyddol ar ddatblygu dealltwriaeth athrawon o beth yw addysgu effeithiol. Mae ychydig o ysgolion wedi defnyddio bwletinau addysgu neu sesiynau rheolaidd i friffio staff i amlygu addysgeg effeithiol ac arfer ystafell ddosbarth ar y cyd. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi darparu hyfforddiant i gefnogi datblygu addysgu. Dywedodd athrawon eu bod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ysgol gyfan mewn addysgu a datblygu dealltwriaeth o addysgeg yn eu meysydd pwnc penodol.

Nododd llawer o ysgolion uwchradd fod hyder athrawon yn defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi dysgu ac addysgu wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y pandemig. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon wedi parhau i ymgorffori elfennau o arfer a ddatblygwyd yn ystod dysgu cyfunol yn eu haddysgu yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft darparu adborth llafar wedi'i recordio ar waith disgyblion trwy ddefnyddio apiau digidol.

Yn aml, mae ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn defnyddio'r 12 egwyddor addysgegol a amlinellir yn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus i helpu llywio mentrau i wella addysgu. Mae llawer o ysgolion wedi rhoi ffocws gwerthfawr o'r newydd ar strategaethau asesu ffurfiannol i sicrhau adborth effeithiol i ddisgyblion wrth iddynt gwblhau tasgau a dysgu.

**Cameo – defnyddio adolygiad thematig Estyn ynghylch Gwella Addysgu[2] i wella arfer**

Defnyddiodd arweinwyr yn Ysgol Sant Curig, Bro Morgannwg, adolygiad thematig Estyn ar wella addysgu i helpu gwella arfer. Defnyddiont amser dysgu proffesiynol ysgol gyfan i graffu ar yr adroddiad yn ofalus gyda staff ac ystyried sut roedd y strategaethau addysgu a amlinellir yn cyd-fynd â'u harfer. Ystyriodd athrawon pa elfennau oedd y rhai gorau i'w mabwysiadu yn eu hystafelloedd dosbarth, a gweithio gyda'i gilydd i weithredu ac ymgorffori'r strategaethau hyn a nodwyd. Un o ganlyniadau cadarnhaol y gwaith hwn yw bod disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn gynyddol.

Mae'r ysgol yn barod i fireinio'r gwaith hwn erbyn hyn, ac wedi nodi eu camau nesaf, yn cynnwys gweithio mewn grwpiau o fewn yr ysgol ac ar draws y clwstwr i ddatblygu'r chwe maes dysgu a phrofiad, a dull ysgol gyfan o ran asesu a chynnydd. Maent yn defnyddio dull ble sefydlon nhw driawd o athrawon i gydweithio a defnyddio'r egwyddorion addysgegol yn Dyfodol Llwyddiannus i gefnogi addysgu a rhannu arfer dda.

Mewn ysgolion cynradd ble mae gwella addysgu yn rhan annatod o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, mae arweinwyr ac athrawon wedi canolbwyntio'n gryf iawn ar yr elfennau addysgu y maen nhw'n credu fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhoi mwy o ystyriaeth i farnau a diddordebau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm a chyfleoedd dysgu;

[2] Estyn (2018) *Gwella Addysgu.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Improving%20teaching%20-%20cy.pdf

- cynllunio cyd-destunau dysgu go iawn i gael disgyblion i ymgysylltu'n fwy ymarferol â'u dysgu, a'u helpu i ddeall ei ddiben;
- ystyried ffyrdd o addasu a gwella'r amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion o bob oedran, yn cynnwys defnyddio'r awyr agored yn fwy pwrpasol a rheolaidd i annog chwilfrydedd a chariad at ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a thrwy brofiad;
- gwella medrau holi athrawon a staff cymorth i herio disgyblion o bob gallu yn fwy effeithiol, a dyfnhau medrau meddwl disgyblion;
- adeiladu ffyrdd o ddatblygu medrau disgyblion i ddysgu'n annibynnol.

Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, rhannodd arweinwyr eu dealltwriaeth o sut bydd gwella ansawdd yr addysgu a datblygu dealltwriaeth o'r gyd-ddibyniaeth rhwng y cwricwlwm ac addysgeg effeithiol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer eu cwricwlwm newydd. Mae'r ysgolion hyn yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu cwricwlwm ble ystyrir addysgeg effeithiol ym mhob cam o ran cynllunio, gweithredu a gwerthuso.

Mewn ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd, nid yw arweinwyr wedi ystyried addysgu yn ddigon gofalus. Nid ydynt bob amser yn gwneud cysylltiadau digon cryf rhwng gwella addysgu a datblygu'r cwricwlwm, ac nid ydynt yn gwerthfawrogi'r effaith sylweddol y bydd addysgu o ansawdd uchel yn ei chael ar lwyddiant neu fethiant y Cwricwlwm i Gymru.

Mae llawer o arweinwyr ar draws pob ysgol ac UCD yn nodi pryderon am asesu a dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru, ac yn enwedig ynghylch nodi a disgrifio sut olwg dylai fod ar gynnydd trwy'r cwricwlwm.

Mae ychydig iawn o ysgolion cynradd yn defnyddio canllawiau'r cwricwlwm yn hyderus i ddatblygu darlun o sut olwg fydd ar gynnydd trwy eu cwricwla unigol eu hunain. Yn yr ysgolion hyn, ble caiff gweledigaeth ar gyfer cynnydd ei datblygu'n gliriach, mae ysgolion yn defnyddio'r fframweithiau a'r datganiadau 'yr hyn sy'n bwysig' i gynllunio'n ofalus ar gyfer cynnydd ar draws yr ysgol. Maent yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer asesu yn yr ystafell ddosbarth sy'n galluogi athrawon i addasu eu harfer fesul gwers, a thros gyfnod, i symud disgyblion tuag at nodau ac amcanion trosfwaol. Mae'r ysgolion hyn yn deall mai prif ddiben asesu yw ei fod yn offeryn i'w ddefnyddio gan athrawon ar gyfer esblygu arfer effeithiol a chefnogi dysgu.

Dywedodd athrawon fod addysgu wedi bod yn heriol iawn yn ystod tymor yr hydref. Cyn y tymor hwn, mewn ysgolion uwchradd, byddai dosbarthiadau cyfan neu grwpiau blwyddyn yn ynysu os oedd achos o COVID-19. Roedd hyn yn golygu y byddent yn addysgu dosbarthiadau cyfan ar-lein neu wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, yn nhymor yr hydref, dim ond unigolion â COVID-19 a'u cysylltiadau agos oedd yn gorfod ynysu. Roedd hyn yn golygu y gallai cyfansoddiad dosbarthiadau fod yn wahanol ym mhob gwers, ac roedd disgyblion ar wahanol gamau yn eu dysgu o ganlyniad i wahanol gyfnodau hunanynysu.

Mae llawer o ysgolion arbennig ac UCDau yn canolbwyntio yn yr addysgu ar liniaru effaith y pandemig trwy addysgu disgyblion mewn grwpiau bach neu'n unigol. Yn gyffredinol, nid yw dysgu o bell yn briodol nac yn effeithiol i lawer o'u disgyblion.

Nododd ychydig o ysgolion arbennig ac UCDau fod gorfod ystyried gwahanol brofiadau disgyblion yn ystod y pandemig wedi gwella lefel y cynllunio a'r cymorth ar gyfer disgyblion unigol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio dull 'sy'n ystyriol o

drawma', ble maent yn ystyried beth maent yn ei addysgu, a sut, i ymateb i drawma personol disgyblion, yn ogystal ag effeithiau'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion, ac ymateb yn ymarferol i'w problemau a nodwyd er mwyn iddynt allu gwneud cynnydd.

Dywed bron pob ysgol arbennig ac UCD nad ydynt yn gallu creu cysylltiadau â darparwyr eraill i arsylwi a rhannu arfer effeithiol ar hyn o bryd, o ganlyniad i'r pandemig. Dywedodd tua hanner ohonynt eu bod yn gweld eisiau'r cyfleoedd hyn ar gyfer staff gan eu bod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer datblygiad staff. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn, mae rhai ysgolion yn parhau i rannu'r gorau o blith eu staff eu hunain yn ystod cyfarfodydd staff.

**Cameo – cynllunio ac addysgu i fynd i'r afael ag effaith y pandemig**

Mae arweinwyr yn UCD Canolfannau Llechan Lân, Gwynedd, yn pryderu am effaith hirdymor y pandemig ar ddisgyblion, yn enwedig ar eu lles a'u medrau llafaredd. Mae datblygu medrau llafaredd yn Gymraeg ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dod o gartrefi ble siaredir Saesneg fel y brif iaith wedi bod yn her yn ystod cyfnodau clo.

Mae'r UCD yn sicrhau bod ei dull o gynllunio dysgu yn canolbwyntio ar anghenion pob un o'r disgyblion. Maent yn cael help i ddatblygu eu medrau llafaredd Cymraeg trwy weithgareddau ymarferol, trawsgwricwlaidd, sydd hefyd yn cefnogi eu lles, fel coginio, addysg gorfforol neu siopa yn y gymuned leol. O ganlyniad, mae disgyblion wedi cael eu cynorthwyo'n llwyddiannus i ddatblygu medrau fel hunanreolaeth, cydweithredu, hunanhyder a chymryd tro, ochr yn ochr â datblygu eu medrau Cymraeg.

# Anghenion dysgu ychwanegol

**Dywedodd bron pob un o'r arweinwyr mewn ysgolion ac UCDau eu bod wedi parhau i ddiwygio eu darpariaeth i fodloni'r gofynion yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg newydd (Cymru) (Deddf ADYTA), er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Mae arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac UCDau yn nodi bod y diwygiadau'n cefnogi ethos eu hysgolion oedd yn bodoli o'r blaen. Bron ym mhob ysgol ac UCD, mae gan Gydlynwyr ADY ddealltwriaeth gadarn o'r cod newydd a chysyniad arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.**

Mewn ysgolion cynradd, mae llawer o Gydlynwyr ADY wedi trosglwyddo'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i aelodau staff eraill yn llwyddiannus. Er enghraifft, erbyn hyn, mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r modd y mae'r dull hwn yn gwella cyfarfodydd adolygu blynyddol ar gyfer disgyblion ag ADY. Er gwaethaf yr hyder o ran diwygio ADY mewn UCDau, mae arweinwyr yn teimlo bod rhai meysydd o hyd y mae angen eu hegluro ymhellach, er enghraifft ar bwy sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau datblygu unigol (CDUau) ar gyfer disgyblion â chofrestriad deuol.



Nododd ysgolion uwchradd fod amrywioldeb yn nealltwriaeth staff o'r Cod ADY ac o'u cyfrifoldebau o fewn hwn. Er bod rhai aelodau staff wedi cael hyfforddiant ar ddiwygio ADY ac ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, maent yn nodi nad yw hyn yn cael ei ymgorffori ddigon o hyd ar draws holl feysydd eu hysgol.

Ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd, mae cynlluniau ar gyfer hyfforddiant pellach i staff. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd, mae sicrhau dealltwriaeth staff o'u cyfrifoldeb mewn cymhwyso arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn eu cynllunio, addysgu ac asesu, yn rhan o'r cynllun datblygu ysgol gyfan. Yn yr ysgolion hyn, mae hyder staff yn datblygu'n addas. Fodd bynnag, teimlai llawer o Gydlynwyr ADY yn y sector uwchradd fod sicrhau bod pob un o'r staff addysgu'n sylweddoli bod darpariaeth ar gyfer ADY yn gyfrifoldeb i bawb yn parhau'n her.

Mae gan bron pob un o'r Cydlynwyr ADY farn gadarnhaol am y cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ystyried bod diwygio ADY yn ddatblygiad cadarnhaol. Nododd llawer ohonynt fod disgyblion a rhieni'n gwerthfawrogi'r newidiadau yn y modd y mae'r ysgol yn gofyn am eu barn, sut y cynhelir cyfarfodydd, a sut caiff gwybodaeth ei rhannu trwy CDUau a phroffiliau un dudalen. Disgrifiodd un arweinydd ysgol arbennig y modd y maent yn datblygu eu fformat CDU eu hunain. At ei gilydd, mae Cydlynwyr ADY yn nodi bod ymgysylltiad â rhieni wedi gwella o ganlyniad i'r newidiadau hyn.

**Cameo – cynlluniau datblygu unigol effeithiol**

Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm, Blaenau Gwent, wedi bod yn datblygu ei fformat CDU ei hun dros gyfnod o sawl blwyddyn. Mae'r ddogfen yn addas ar gyfer plant, ac yn cael ei diwygio bob blwyddyn, o leiaf. Mewn adolygiadau blynyddol, caiff y CDU ei rannu ar sgrin fawr. Mae hyn yn galluogi'r holl gyfranwyr, yn cynnwys staff, rhieni, gweithwyr proffesiynol eraill a disgyblion, lle bo'n briodol, i weithio gyda'i gilydd i ddiwygio gwybodaeth allweddol, fel cynnydd a thargedau disgyblion. Mae'r dull hwn wedi cael ei groesawu gan rieni a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd, ac yn golygu bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn ystyrlon yn eu hadolygiadau.

Mae'r ysgol hon yn parhau i fyfyrio ar effeithiolrwydd yr arferion, a'u datblygu, ac wedi diweddaru eu systemau yn ddiweddar i sicrhau cydymffurfio â diwygio ADY. Mae arweinwyr wedi rhannu'r gwaith hwn gydag ysgolion eraill yn y rhanbarth.

Roedd amrywiad yn y modd roedd ysgolion ac UCDau yn cynnal eu hadolygiadau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda rhai ohonynt yn cynnal cyfarfodydd ar-lein o hyd, ac eraill yn gwahodd rhieni ac asiantaethau i'r ysgol. Mewn llawer o achosion, ystyriodd Cydlynwyr ADY ffafriaethau rhieni a disgyblion wrth benderfynu sut i gynnal adolygiadau. O ganlyniad i hyn, roedd teuluoedd yn teimlo'n gyfforddus ac felly'n gallu cyfrannu'n well mewn cyfarfodydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr fod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol ar ddiwygio ADY wedi bod yn fuddiol. Mae awdurdodau lleol wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol, yn cynnwys gweithdai, modiwlau ar-lein, cyfleoedd trafod proffesiynol ac adnoddau o ansawdd da i staff eu defnyddio. Mae hyn wedi cynorthwyo ysgolion i ennill dealltwriaeth ddyfnach o'r newidiadau sy'n dod yn sgil y ddeddf. Hefyd, mae llawer o gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn eu clystyrau ysgolion i rannu gwybodaeth ac arfer orau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac UCDau wedi nodi disgyblion sydd angen ymyrraeth ADY arbenigol, ac wedi amlinellu anghenion darpariaeth cyffredinol disgyblion eraill. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir ystod o ymyriadau, pecynnau cymorth a darpariaeth cwricwlwm addas ar bob un o'r lefelau hyn.

Parhaodd llawer o ysgolion uwchradd i sgrinio disgyblion ym Mlwyddyn 7 er mwyn cael gwybodaeth waelodlin. Defnyddiant y wybodaeth hon yn gynhyrchiol i nodi a oes angen cymorth â llythrennedd a rhifedd ar ddisgyblion. Darparodd llawer o ysgolion brofiadau dysgu buddiol ar gyfer grwpiau ac unigolion, fel therapïau chwarae penodol a sesiynau llythrennedd emosiynol sy'n ysgogi rhyngweithio cymdeithasol disgyblion ac yn cynorthwyo disgyblion i gyflawni eu targedau. Mae rôl y cynorthwywyr addysgu yn hanfodol i lwyddiant yr ymyriadau hyn, ac mae Cydlynwyr ADY yn gwerthfawrogi eu medrau a'u hymroddiad.

Mae Cydlynwyr ADY ac arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn pryderu bod diffyg asesiadau sgrinio, adnoddau cymorth a rhaglenni ymyrraeth ar gael yn Gymraeg o hyd.

Mae llawer o gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd wedi gweithio mewn partneriaeth o fewn eu clwstwr o ysgolion i greu pamffledi a llythyrau sy'n rhoi gwybod i rieni am y ddeddf newydd, a sut bydd yn effeithio ar eu plant. Mewn rhai achosion, rhennir gwybodaeth trwy gyfarfodydd rhithwir ble gall rhieni ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Fodd bynnag, nodont fod prinder staff mewn awdurdodau lleol hefyd yn cael effaith ar ddisgyblion ag ADY, a bod rhaid i lawer o ddisgyblion aros yn hirach i weld arbenigwyr.

Bron ym mhob achos, dywedodd Cydlynwyr ADY mewn ysgolion uwchradd fod cynllunio a chymorth effeithiol ar lefel clwstwr. Roedd enghreifftiau da o Gydlynwyr ADY cynradd ac uwchradd yn rhannu baich gwaith, fel ysgrifennu dogfennau a pholisïau generig, cymedroli CDUau a rhoi cymorth i'w gilydd yn gyffredinol. Sicrhaodd hyn ansawdd a chysondeb o ran dull, fel mabwysiadu map cyffredin o ddarpariaeth, ac mae'n cefnogi cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Fe wnaeth ychydig o ysgolion uwchradd elwa ar arfer dda a welwyd yn eu hysgolion cynradd clwstwr. Er enghraifft, mewn un clwstwr, creodd pob ysgol gyflwyniad digidol cyffredin i'w ddefnyddio mewn adolygiadau cynnydd.

Ar draws pob sector, nododd Cydlynwyr ADY heriau sylweddol ynghylch cyfyngiadau amser a gofynion gweinyddu, a bod ysgrifennu CDUau yn llafurus. Ym mwyafrif yr achosion, dywedodd Cydlynwyr ADY fod eu hawdurdod lleol wedi rhoi hyfforddiant buddiol iddynt, ac wedi parhau i'w cynorthwyo i ysgrifennu CDUau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nododd Cydlynwyr ADY mewn ysgolion uwchradd nad oedd y momentwm cychwynnol gan eu hawdurdod lleol wedi parhau, ac nad oedd digon o gefnogaeth ar gyfer y gwaith oedd ei angen. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd yr awdurdod lleol wedi cynorthwyo ysgolion cynradd ond nid oedd wedi darparu unrhyw hyfforddiant ar gyfer eu hysgolion uwchradd eto.

Er bod Cydlynwyr ADY wedi cael digon o amser i gyflawni eu rôl statudol a strategol yn y mwyafrif o achosion, mae amrywiad o hyd yn eu hymrwymiadau addysgu. Er enghraifft, mewn ysgolion uwchradd, mae nifer fach sylweddol yn addysgu am 20% o'r wythnos o hyd, ac mewn ychydig iawn o achosion, mae gan y Cydlynydd ADY 50% o ymrwymiad addysgu.

## Dysgu proffesiynol

**Er gwaethaf y pandemig, mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff i wella ansawdd yr addysgu a pharatoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.**

Er enghraifft, mae ychydig o ysgolion cynradd wedi edrych ar sut gallant gyflwyno dysgu mwy effeithiol yn yr awyr agored a sut gallant ymgorffori hyn yn fwy rheolaidd wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm. Yn aml, esboniodd arweinwyr mewn ysgolion cynradd bwysigrwydd cynnwys pob aelod o staff mewn dysgu proffesiynol i sicrhau bod dull ysgol gyfan o ddatblygu'r cwricwlwm.

Mewn ychydig o ysgolion cynradd, lle bu angen ymateb yn gyflym i amgylchiadau a achoswyd gan y pandemig, mae arweinwyr wedi'i chael yn fwy heriol cynnal dull strwythuredig o ran dysgu proffesiynol, ac mae hyn yn aml wedi arafu dysgu cynlluniedig yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae dysgu proffesiynol wedi parhau ar-lein mewn llawer o ysgolion arbennig ac UCDau, a disgrifiodd arweinwyr fanteision cael mynediad at ddysgu proffesiynol yn y modd hwn. Er enghraifft, dywedodd arweinwyr fod mwy o aelodau o staff addysgu wedi manteisio ar ddysgu proffesiynol rhithwir, a gallant wneud defnydd gwell o'u hamser yn eu hysgol neu UCD yn hytrach na theithio pellterau i fynychu digwyddiadau dysgu proffesiynol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi ehangu eu cynnig dysgu proffesiynol i gynnwys mwy o gyfleoedd dysgu ar-lein. Mae'r rhain yn sicrhau bod pob un o'r staff yn gallu ymgymryd â'r hyfforddiant ac ailedrych ar hyfforddiant wedi'i recordio, fel y bo'n briodol. Yn ychwanegol, mae llawer o ysgolion uwchradd wedi parhau i ddarparu cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.

**Cameo – cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol ar-lein**

Mae Ysgol yr Esgob Gore, Abertawe, wedi datblygu platfform dysgu proffesiynol. O ganlyniad, yn hytrach na gweithio'n ddilyniannol trwy restr o agweddau ar ddysgu proffesiynol, mae staff yn gweithio ar y maes dysgu proffesiynol sydd fwyaf priodol iddyn nhw. Mae'r system hon yn sicrhau bod staff yn gwybod beth ddylai eu ffocws nesaf fod, ac wedi gwneud baich gwaith ar gyfer staff yn hylaw.

Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd wedi datblygu defnydd staff o ymchwil ac ymholi i gyfrannu at wella agweddau ar addysgu a dysgu. Mae arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn teimlo bod hyn yn helpu staff i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn ychydig o ysgolion cynradd, mae arweinwyr wedi annog athrawon i ymchwilio a datblygu gwahanol ddulliau addysgegol a rhannu arfer dda. Mae hyn wedi eu helpu i fireinio'u darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion yn y ffordd orau.

**Cameo – dull wedi'i seilio ar ymchwil o ddatblygu'r cwricwlwm**

Defnyddiodd Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig Sant Joseff, Casnewydd, ddull wedi'i seilio ar ymchwil o ddatblygu'r cwricwlwm ac addysgu. I sicrhau bod yr ymchwil yn benodol a mesuradwy, mae'r ysgol wedi datblygu fframwaith ar gyfer ysgrifennu cwestiynau ymholi, ac mae pob adran wedi datblygu cwestiwn ymholi am y cwricwlwm newydd. Rhennir canlyniadau a dealltwriaeth o bob un o'r ymholiadau proffesiynol gyda chydweithwyr. Yn ychwanegol, mae pob ymholiad yn gysylltiedig â rheoli perfformiad ac yn bwydo i werthuso adrannau ac ysgol gyfan.

Mae ychydig o ysgolion cynradd wedi gweithio gyda chyrff allanol, fel prifysgolion neu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE), i ganolbwyntio ar ddulliau wedi'u seilio ar ymchwil. Teimlai staff fod hyn wedi eu galluogi i ddefnyddio dulliau mwy mentrus gan y bu eu penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr eu bod wedi cael mwy o gyfleoedd yn ddiweddar i ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol i gefnogi'r blaenoriaethau strategol ehangach a nodwyd yn eu cynlluniau datblygu eu hunain. Mae ychydig o ysgolion ac UCDau yn parhau i fod wedi'u cyfyngu yn eu gallu i ymweld â darparwyr eraill a

chydweithio â chydweithwyr mewn ysgolion eraill o ganlyniad i gyfyngiadau yn sgil y pandemig. O ganlyniad, mae cyfleoedd i rannu arfer effeithiol wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn gyfyngedig.

Mae llawer o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd wedi cyflwyno hyfforddi fel dull o ran eu dysgu proffesiynol. Mae'r dull hwn yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a chlystyrau hefyd, a rhwng staff o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad. Mae arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn nodi, ble mae hyn yn gweithio'n dda, eu bod yn cymryd syniadau gan ysgolion eraill ac yn eu haddasu'n ofalus i weddu i'w cyd-destun eu hunain. Nododd ychydig o ysgolion y byddent yn croesawu cyfleoedd i weithio gydag ysgolion tebyg y tu allan i'w clwstwr lleol i weld a fyddai dull cyffredin yn ddefnyddiol. Ar yr un pryd, cydnabu'r rhan fwyaf ohonynt fod angen i'w cwricwlwm fod yn berthnasol i'w disgyblion ac wedi'i deilwra i'w hysgol.

Dywedodd mwyafrif yr arweinwyr eu bod wedi cael cymorth gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i'w helpu i ystyried materion penodol, fel datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm, ac ystyried egwyddorion pwysig y Cwricwlwm i Gymru. Nododd ysgolion uwchradd eu bod wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd a drefnwyd gan gonsortia rhanbarthol i gysylltu ag ysgolion eraill i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Er eu bod wedi gwerthfawrogi'r cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio rhithiol, teimlai ychydig ohonynt fod amseriad y cyfarfodydd hyn yn rhwystro pob aelod o staff rhag elwa.

Nododd tua hanner yr arweinwyr fod angen mwy o gymorth arnynt ag anghenion datblygu penodol eu hysgolion. Felly, mae llawer o ysgolion cynradd wedi troi at ddarparwyr allanol wrth iddynt ddechrau ar eu taith i ddylunio'r cwricwlwm. Lle y bu hyn yn effeithiol, mae ysgolion wedi defnyddio'r mewnbwn cychwynnol hwn i ystyried eu hamgylchiadau penodol, a phenderfynu beth sy'n berthnasol i anghenion eu disgyblion.

Yn gyffredinol, hoffai llawer o ysgolion gael mwy o ddysgu proffesiynol ar feysydd fel dilyniant y cwricwlwm, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion, a chymorth mwy ymarferol ar gyfer dylunio a datblygu eu cwricwlwm. Mynegodd ychydig o arweinwyr bryderon am heriau penodol, er enghraifft cael mynediad at ddysgu proffesiynol mewn rhai meysydd dysgu a phrofiad, fel gwyddoniaeth a thechnoleg a'r celfyddydau mynegiannol.

Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw staff wedi cael llawer o ddysgu proffesiynol ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm, y pedwar diben a meysydd dysgu a phrofiad. Yn aml, nid yw staff yn yr ysgolion hyn yn meddu ar ddealltwriaeth gref o gwricwlwm sy'n gydlynol ac yn dangos dilyniant, nac ar yr arbenigedd i'w ddatblygu.

Mae dysgu proffesiynol mewn ysgolion arbennig ac UCDau wedi parhau i fod yn ymatebol i'r sefyllfa sy'n newid o hyd. Er enghraifft, mae wedi cynnwys hyfforddiant ar ddatblygu medrau staff addysgu i ymateb i les ac anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Mae un UCD wedi hwyluso hyfforddiant a oedd yn cynnwys carwsél o weithgareddau y gallai staff ddewis mynychu sesiynau o'u plith a oedd fwyaf perthnasol i'w cyd-destun eu hunain. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys agweddau fel darpariaeth drawsryweddol, trawma ac ymlyniad. Mewn ysgol arbennig arall, mae seicolegydd yr ysgol wedi cyflwyno hyfforddiant i aelodau staff ar ddatblygu perthnasoedd gweithio therapiwtig gyda disgyblion, yn ogystal â thrawma ymlyniad a thrawma datblygiadol. Mae arweinwyr yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant gweithdrefnol mewn agweddau fel iechyd a diogelwch, a diogelu.

# Arweinyddiaeth

**Parhaodd bron pob un o’r arweinwyr i nodi bod arwain ysgol mewn pandemig wedi bod yn heriol, ac mai eu blaenoriaeth fu cadw pawb yn ddiogel, a chynnal lles staff a disgyblion.**

Mae arweinwyr wedi bod yn ystyriol o beidio â gorlwytho staff pan maent wedi bod dan bwysau am gryn amser, a bu absenoldebau nodedig ymhlith staff yn gysylltiedig â’r pandemig. O bryd i’w gilydd, roedd hyn yn golygu cyfyngu ar sesiynau dysgu proffesiynol a lleihau monitro yn yr ysgol. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar baratoadau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY.



Teimlai llawer o arweinwyr yn y sector uwchradd mai tymor yr hydref oedd y cyfnod mwyaf heriol yn ystod y pandemig cyfan. Yn ogystal â'r gwaith arferol o ran rheoli ysgol, parhaodd arweinwyr i reoli materion yn gysylltiedig â COVID-19, fel mesurau iechyd a diogelwch, ac absenoldebau cynyddol ymhlith disgyblion a staff. Cyfrannodd newid i'r cwricwlwm a diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) at y pwysau sylweddol a roddwyd ar arweinwyr, a nododd llawer ohonynt fod yr ansicrwydd ynglŷn â mesurau atebolrwydd ac arholiadau yn bryder ychwanegol. Dywedont y byddent yn gwerthfawrogi cael mwy o gymorth i reoli'r agweddau hyn ar eu gwaith. Er gwaethaf yr heriau hyn, dangosodd arweinwyr agwedd gadarnhaol ar y cyfan at y cyfleoedd a ddarperir gan y Cwricwlwm i Gymru, a pharodrwydd staff i arddel mwy o weithio mewn clystyrau a chydweithio rhwng ysgolion.

Mae llawer o arweinwyr mewn ysgolion cynradd yn teimlo eu bod wedi creu amgylchedd cadarnhaol, ble caiff creadigrwydd ac arbrofi eu hannog. Serch hynny, dywed llawer ohonynt fod heriau yn gysylltiedig â'r pandemig yn parhau i rwystro cyflymdra ac effeithiolrwydd llawer o'u cynlluniau. Er enghraifft, mae natur fynych absenoldebau staff a disgyblion yn ei gwneud yn anodd i athrawon ac arweinwyr dreialu syniadau a mentrau newydd, a gwerthuso'u llwyddiant.

Cadarnhaodd ein trafodaethau ag ysgolion cynradd fod arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn allweddol i bob agwedd ar ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'n ymddangos mai'r ysgolion sydd wedi paratoi fwyaf ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yw'r rhai ble mae arweinwyr wedi neilltuo amser a gofod i staff ddatblygu eu meddylfryd a'u harbenigedd.

Nododd y rhan fwyaf o arweinwyr ym mhob sector fod anawsterau o ran cael staff cyflenwi yn broblem. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cyflenwi yn ystod absenoldeb salwch, neu mewn lleiafrif o achosion, i staff fynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â newidiadau, fel diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru. Mynegwyd pryderon penodol gan arweinwyr mewn ysgolion cynradd llai, yn bennaf oherwydd bod gan y pennaeth gyfrifoldebau addysgu sylweddol yn aml, a gall absenoldebau staff achosi tarfu sylweddol. Mewn ysgolion cynradd mwy, dywedodd penaethiaid wrthym hefyd eu bod wedi cyflenwi mewn dosbarthiadau'n rheolaidd o ganlyniad i absenoldebau staff.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae uwch dimau arweinyddiaeth wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer rhoi newid ar waith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr fod COVID-19 wedi arafu cynnydd tuag at roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, a datblygu cwricwlwm lleol. Priodolon nhw hyn i'r diffyg cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a chyfleoedd i drafod rhwng staff, a gyda nhw, yr angen i ganolbwyntio mwy ar wella lefelau medrau disgyblion sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig, rheoli materion yn gysylltiedig â COVID-19, ac absenoldeb staff. Roedd ffactor cyfrannol arall yn cynnwys natur lafurus rheoli graddau a bennir gan ganolfannau.

Un o ganlyniadau nodedig yr ymagwedd mae llawer o arweinwyr wedi'i defnyddio trwy gydol y pandemig yw datblygu diwylliant mwy cydweithredol mewn ysgolion, a pharodrwydd cynyddol staff i arloesi. Bu'n rhaid i ysgolion wneud newidiadau ac addasu eu harferion yn rheolaidd trwy gydol y pandemig. O ganlyniad, dywedodd arweinwyr fod eu staff yn fwy agored i newid, ac mewn ysgolion uwchradd, mae ysgolion yn dechrau ystyried gwahanol ddulliau o addysgu fel rhan o dreialu dulliau'r Cwricwlwm i Gymru. Nododd mwyafrif arweinwyr ysgolion cynradd eu bod yn

hyderus i’w staff roi cynnig ar ddulliau newydd, gwerthuso eu heffaith, a mireinio eu prosesau. Pan fydd ysgolion yn defnyddio’r dull cylchol hwn, maent yn tueddu i fod ymhellach ar y blaen o ran paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Pan godwyd pryderon penodol gan arweinwyr, roedd yn aml yn ymwneud â nodi sut olwg dylai fod ar ddilyniant trwy’r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgolion, a beth ddylai ffurf yr asesu fod. Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr wrthym eu bod yn ansicr ynglŷn â’r meysydd hyn ac y byddent yn gwerthfawrogi mwy o arweiniad.

Nododd llawer o arweinwyr nad oedd hi bob amser yn bosibl iddynt roi eu gweithgareddau hunanwerthuso arferol ar waith o ganlyniad i’r cyfyngiadau yn gysylltiedig â’r pandemig. Er enghraifft, nododd y rhan fwyaf o arweinwyr mewn ysgolion cynradd nad oeddent wedi cynnal arsylwadau gwersi nac arsylwadau uniongyrchol penodol o addysgu a dysgu mewn ystafelloedd dosbarth. O ganlyniad, nid oeddent yn teimlo mor hyderus â’r arfer yn eu hasesiadau o safonau disgyblion nac yn ansawdd y ddarpariaeth ystafell ddosbarth.

Roedd ychydig o arweinwyr ysgol wedi chwilio am ffyrdd amgen o sicrhau dealltwriaeth o ansawdd cyfredol. Yn yr enghreifftiau gorau, cafodd arweinwyr dystiolaeth o ffynonellau eraill, fel craffu mwy ar waith disgyblion a’r deunyddiau dysgu ar-lein yr oedd athrawon yn eu darparu mewn sesiynau dysgu cyfunol neu ddysgu o bell.

**Cameo – defnyddio hyfforddi i wella addysgu**

Mae Ysgol Gynradd Sandycroft, Sir y Fflint, wedi gwerthuso effaith arsylwadau gwersi ar wella safonau addysgu a dysgu. Roedd yn glir fod athrawon yn ystyried bod arsylwadau gwersi yn heriol iawn, eu bod yn cael effaith gyfyngedig ac nid oeddent yn cefnogi diwylliant dysgu cadarnhaol.

Ar yr un pryd â gwerthuso arsylwadau gwersi, roedd yr ysgol wrthi’n datblygu dull meistrolaeth o addysgu mathemateg. Roedd hyfforddi athrawon yn ystod gwersi yn agwedd allweddol ar y gwaith hwn. Nododd arweinwyr fod effaith hyfforddi mewn gwersi yn gadarnhaol, a buan yr estynnwyd y model hyfforddi y tu hwnt i wersi mathemateg i feysydd eraill y cwricwlwm, ac i bob rôl o fewn yr ysgol.

Roedd datblygu diwylliant o her effeithiol gyda bygythiad isel yn agwedd allweddol ar y gwaith hwn. Anogwyd pob aelod o staff i amlygu gwendidau y mae angen cymorth arnynt â nhw i wella eu haddysgu neu’u rolau ehangach yn yr ysgol. Modelodd arweinwyr hyn ar gyfer staff, ac roedd yr ysgol yn gallu defnyddio’r gwerthusiadau hyn i ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu mewn diwylliant sy’n hyrwyddo her â bygythiad isel, ac fel ffordd effeithlon ac effeithiol o wella addysgu.

Mae’r ysgol yn defnyddio egwyddorion addysgegeol y Cwricwlwm i Gymru erbyn hyn fel y ffocws ar gyfer hyfforddi yn yr ysgol.